

“Gwelwyd llif masnach ledled y byd yn cael ei effeithio yn ystod 2021 oherwydd newidiadau mewn lefelau cynhyrchu a Covid-19. Cafodd ffermwyr y DU brisiau cadarn am wartheg a defaid o ganlyniad i gyflenwad tynn a'r galw manwerthu mawr parhaus gan ddefnyddwyr. Arweiniodd hyn at lai o argaeledd i'w allforio; dyma un o'r prif ffactorau y tu ôl i'r gostyngiad o 22% yn nifer yr allforion ar gyfer 2021 ar gyfer y ddau sector. Mae CThEM wedi cyhoeddi ffigurau masnach yn ddiweddar ar gyfer Ionawr 2022 sy'n datgelu'r patrymau a welwyd mewn cig coch o'i gymharu â mis Ionawr 2021 (mis cyntaf o fasnachu ar ôl Brexit) ac Ionawr 2020 (cyn Covid). Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y patrymau masnach hyn.

Glesni Phillips – Dadansoddwr Data



## CIG EIDION A CHIG LLO

Mae ffigurau gan CThEM ar gyfer Ionawr 2022 yn dangos bod **allforion** cig eidion wedi gwella ers yr anawsterau ar ôl Brexit ym mis Ionawr 2021. Cyfanswm y cig eidion ffres/rhew a allforiwyd yn ystod y mis oedd 7,200 tonnall – cynnydd o 2,600 tonnall (neu 57%) ar Ionawr 2021. Cynyddodd nifer yr allforion er gwaethaf ffigurau gan Defra yn datgelu bod cynhyrchiant cig eidion y DU wedi gostwng 8% ar y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r cyfeintiau ar gyfer Ionawr 2022 wedi gostwng 31% o'u gymharu â mis Rhagfyr 2021. Cynyddodd cyfanswm gwerth allforion cig eidion ffres/wedi rhewi o 86% ar y flwyddyn i £26.3 miliwn.

Er bod allforion wedi tyfu, cynyddodd **mewnforion** cig eidion ffres/wedi rhewi yn ystod mis Ionawr hefyd gan arwain at gyfanswm o 20,950 tonnall. Mae hyn 45% yn fwy nag ym mis Ionawr y llynedd,

ond 10% yn is na mis Rhagfyr 2021, yn unol â thueddiadau tymhorol. Parhaodd Iwerddon i fod yn brif allforiwr cig eidion i'r DU (gan gyfrif am 72% o'r holl fewnforion), a chofnododd gynnydd o 21% yng nghyfanswm y mewnforion blwyddyn ar flwyddyn. Cynyddodd cyfanswm gwerth mewnforion cig eidion ffres/wedi rhewi o 75% ar y flwyddyn i £101.5 miliwn.

### Masnach Cig Eidion Ionawr '22



ALLFORION =  
7,200 tonnall  
+57% b-a-f

MEWNFORION =  
20,950 tonnall  
+45% b-a-f

## CIG DEFAID

Cyfanswm y cig defaid ffres/wedi rhewi a **allforiwyd** yn ystod mis Ionawr oedd 4,100 tonnall – cynnydd o 13% (neu 500 tonnall) o'i gymharu â mis Ionawr 2021. Er gwaethaf yr adferiad o flwyddyn i flwyddyn, mae'r niferoedd presennol yn parhau'n sylweddol is na lefelau cyn Brexit a'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer mis Ionawr (2016-2020 = 6,500 tonnall). Fodd bynnag, cynyddodd cyfanswm eu gwerth 27% ar y flwyddyn i £27.2 miliwn ym mis Ionawr - sy'n adlewyrchiad o brisiau gât y fferm uwch yn y DU. Derbyniodd Ffrainc 250 yn llai o dunelli o'r DU yn ystod y mis, tra bod 400 tonnall ychwanegol wedi'u hanfon i Iwerddon.

Cynyddodd cyfaint y cig defaid ffres/wedi rhewi a **fewnforiwyd** 13% i gyfanswm o 4,450 tonnall. Er bod y DU yn fewnforiwr net yn bennaf yn ystod mis Ionawr, mae nifer y mewnforion wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r lefel

bresennol 13% yn uwch nag Ionawr 2020 hefyd. Roedd y cyfeintiau a fewnforiwyd o Seland Newydd wedi gostwng 11% ar y flwyddyn ar 2,100 tonnall, tra derbyniwyd 400 tonnall a 140 tonnall ychwanegol o Awstralia ac Iwerddon, yn y drefn honno. Mae'r galw am gig defaid ar farchnad y DU wedi aros yn gadarn yn dilyn newidiadau mewn arferion bwyta yn ystod Covid-19, sy'n debygol o gynyddu'r galw am fewnforio.

### Masnach Cig Defaid Ionawr '22



ALLFORION =  
4,100 tonnall  
+13% b-a-f

MEWNFORION =  
4,450 tonnall  
+13% b-a-f

## PORC

Roedd cyfanswm yr **allforion** porc ffres/wedi rhewi yn ystod mis Ionawr wedi cynyddu 64% ar y flwyddyn ddiwethaf ar 15,800 tonnall. Parhaodd yr allforion i Tsieina'n gryf ar bron i 7,500 tonnall - cynnydd o 2,000 tonnall ar y flwyddyn, tra bod 870 tonnall ychwanegol wedi cael eu hallforio i Iwerddon. Cafwyd mwy o allforion ochr yn ochr â chynnydd o 8% mewn cynhyrchiant porc.

Cynyddodd cyfanswm y **mewnforion** porc ffres/wedi rhewi o 88% (neu 12,500 tonnall) o'i gymharu â mis Ionawr 2021 i 35,300 tonnall. Cyfrannodd yr Almaen, Ffrainc a Sbaen i gyd at y cynnydd cyffredinol

mewn cyfaint – gyda rhai adroddiadau yn y diwydiant yn awgrymu bod mwy o gynhyrchiant yn yr UE yn ystod 2021 wedi arwain at gynnyrch ychwanegol yn dod i mewn i farchnad y DU.

### Masnach Porc Ionawr '22



ALLFORION =  
15,800 tonnall  
+64% b-a-f

MEWNFORION =  
35,300 tonnall  
+88% b-a-f

## Edrych Ymlaen

Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi arwain at brisiau'r farchnad grawn yn codi'n sylweddol, gyda rhai adroddiadau yn y diwydiant yn awgrymu bod symudiadau llongau masnachol a'r defnydd o borthladdoedd wedi'u hatal yn y ddwy wlad. Bydd hyn yn anochel yn effeithio ar lif masnach cynhyrchion. Mae Rwsia ac Wcráin yn gynhyrchwyr grawn sylweddol, tra bod Rwsia hefyd yn mewnforio llawer iawn o

gig eidion. Bydd tarfu ar y llifau masnach hyn yn anochel yn effeithio ar farchnadoedd eraill ledled y byd, gan gynnwys y DU, o ran symud cynnyrch, a chost mewnbynau fel bwyd anifeiliaid, tanwydd a gwrtaith. Wrth i chwyddiant barhau i godi'n gyflym, mae'n anodd rhagweld tueddiadau galw am gig coch wrth i ddefnyddwyr deimlo'r wasgfa ar eu gwariant cartref.

Bydd HCC yn rhyddhau adroddiad newydd sy'n edrych yn fanylach ar fasnach fyd-eang cig coch, ynghyd â'r cyflenwad o gig coch ar farchnad y byd yn y dyfodol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru ar gyfer ein cylchlythyr neu cadwch lygad ar [wefan HCC yma i ddarllen yr adroddiad](#).

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn gorffen 19 Mawrth

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **234.9c/kg**. Roedd hyn:

- -0.6c ar yr wythnos flaenorol,
- +20c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- Bron i 40c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 195.1c/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **416.2c/kg**. Roedd hyn:

- +4.4c ar yr wythnos flaenorol,
- +30.5c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 414.0c/kg (+5.0c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 397.2c/kg (+6.6c), a gwartheg difa ar 325.0c/kg (+10.9c).

### Trwybwn – Chwefror 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 215,800 pen – gostyngiad o 1% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 158,900 pen - i lawr 1% ar y flwyddyn.
  - bustych -2%, heffrod +1%, a theirw ifanc -3%.
- Cyfartaledd pwysau carcasu gwartheg dethol = 350.8kg (+2.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 52,1000 pen - i lawr 1% ar y flwyddyn.

## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn gorffen 19 Mawrth

Pris cyfartalog SQQ pwysau byw ŵyn dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **258.3c/kg**. Roedd hyn:

- +4.7c ar yr wythnos flaenorol,
- -27.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- Bron 28c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd o 230.3c/kg.

Prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£93.70/pen**. Roedd hyn:

- +£5.10 ar yr wythnos flaenorol,
- +£5.80 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Cyfartaledd prisiau cig oen pwysau marw Prydain Fawr oedd 566.9c/kg (+1.8c ar yr wythnos flaenorol).

### Trwybwn - Chwefror 2022

- Cyfanswm trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 960,800 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 864,900 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasu ŵyn cyfartalog = 21.0kg (+0.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid difa a hyrddod = 95,900 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn.

## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 12 Mawrth


Roedd Pris Mochyn Cyfan (APP) Manyleb yr UE ym Mhrydain Fawr yn **144.7c/kg**. Roedd hyn:

- +0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- +1.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 6.2c na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 150.9c/kg).

Mae nifer o heriau o fewn y sector yn parhau i roi pwysau ar y farchnad, gyda chapasiti prosesu cyfyngedig mewn rhai gweithfeydd yn lleihau cyfanswm y trwybwn o wythnos i wythnos. Mae'r ffigurau trwybwn ar gyfer mis Chwefror yn dangos bod moch trymach yn cael eu prosesu o ganlyniad i lawer ohonynt ar y fferm am fwy o amser na'r disgwyl.


### Trwybwn - Chwefror 2022

- Cyfanswm trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 939,700 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn hychoed a baeddod = 23,500 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn
- Trwybwn moch heb fagu = 916,200 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasu moch heb fagu cyfartalog = 94.0kg, 4kg yn drymach ar y flwyddyn (gan adlewyrchu'r ôl-groniad o foch sy'n aros ar y fferm).




**Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU**  
Chwefror '22

72,800 tonnelli  
-0.4% b-a-f



**Cynhyrchiant Cig Defaid y DU**  
Chwefror '22

20,800 tonnelli  
+13% b-a-f



**Cynhyrchiant Porc y DU**  
Chwefror '22

89,400 tonnelli  
+6% b-a-f

